# PWYLLGOR ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi, 2010

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Is-Gadeirydd) (Yn y Gadair)<br><br>Cynghorwyr Lewis Davies, Jim Evans, Eric Jones,<br>G.W. Roberts, OBE, John Penri Williams |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Rheolwr Archwilio (JF)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Keith Evans, Selwyn Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorydd C.L. Everett (Deilydd Portffolio Rheoli Corfforaethol), Cynghorydd Thomas Jones (Deilydd Portffolio Cyllid), Ms Lynn Hine (Partner Cysylltu - PwC), Mr James Quance (Uchel Reolwr Archwilio - PwC), Mr Patrick Green (RSM Tenon) |

•

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd ac arwyddwyd fel rhai cywir gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf, 2010. *(Tudalennau 247 - 255 yng Nghyfrol Cofnodion Chwarterol y Cyngor Sir, mis Medi, 2010).*

**3 DATGANIAD CYFRIFON 2009/10**

**3.1** Cafwyd adroddiad gan PricewaterhouseCoopers LLP, Archwilydd Allanol yr Awdurdod, yng nghyswllt Archwiliad o Ddatganiadau Cyfrifo'r Awdurdod. Roedd yr adroddiad yn manylu ar y materion mwyaf sylweddol oedd yn codi o archwiliad PwC o'r datganiadau cyfrifo a'r nodiadau cysylltiol ac yn nodi bod nifer o faterion yn parhau heb eu datrys.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid bod disgwyl i Ddatganiadau Cyllidol yr Awdurdod gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio eu cymeradwyo a'u harwyddo i ffwrdd gan yr Archwilwyr Allanol a'u cyhoeddi erbyn diwedd mis Medi yn flynyddol. Dywedodd wrth yr aelodau iddi ddod yn amlwg nad yw'r Awdurdod ar hyn o bryd mewn sefyllfa i gyflwyno taflen o gyfrifon i'r Pwyllgor eu cymeradwyo a bod swm sylweddol o waith pellach angen ei wneud gan yr Awdurdod a'r Archwiliwr Allanol cyn y bydd y ddau barti'n barod i'r Datganiad gael ei gyflwyno. Dywedodd ei bod yn hynod siomedig nad oedd yr Awdurdod wedi gallu cydymffurfio gyda'r disgwyliad y flwyddyn hon ac fe fyddai'n gynamserol yn y cyfarfod hwn i geisio egluro mewn unrhyw fanylder paham mai felly y bu pethau. Tra bo rhai problemau gyda chyfathrebu a diffyg adnoddau, ni fydd yr union sefyllfa yn dod yn glir hyd nes y bydd yr holl waith sydd angen ei wneud wedi'i gwblhau.

Aeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid yn ei flaen i gynghori'r Pwyllgor bod angen cymryd camau ffurfiol oherwydd nad oedd yr Awdurdod wedi cydymffurfio gyda'r gofynion. Nid yw'r adroddiad uchod gan PwC yn adroddiad terfynol ac fe ddylid ei thynnu yn ôl yn ffurfiol; ond ni ddylai hynny rwystro'r aelodau rhag codi rhai materion y maent hwy'n ei deimlo sy'n bwysig. Bydd angen i'r Awdurdod gyhoeddi Datganiad i'r cyhoedd erbyn diwedd mis Medi yn dweud nad yw'r Awdurdod wedi medru cwblhau'r cyfrifon erbyn y dyddiad angenrheidiol. Fe fydd yn bosibl cyfeirio at y ffaith bod Datganiad Cyfrifon drafft ar gael i'r cyhoedd. Dywedodd y byddai'n gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo'r

llwybr hwn yn ffurfiol. Bydd yn rhaid i'r Awdurdod a'r Archwilydd Allanol gwblhau'r gwaith sydd ar ôl ar y Datganiad Cyfrifon gyda golwg ar gyflwyno'r fersiwn derfynol ynghyd â'r adroddiadau cysylltiol i'r Pwyllgor Archwilio fe obeithir yn ystod mis Hydref. Dywedodd ei bod yn ddrwg ganddo orfod adrodd yn ôl am y sefyllfa hon, a gofynnodd i'r Pwyllgor ystyried y sefyllfa a'r camau i'w cymryd.

Mewn ymateb i wahoddiad y Cadeirydd i wneud sylw ar y sefyllfa, dywedodd Lynn Hine, PwC nad oedd gan yr Archwilwyr Allanol ar hyn o bryd set o gyfrifon lle y gall roi barn archwilio arnynt. Mae gwaith yn parhau ar y ddwy ochr er mwyn ceisio cyrraedd y sefyllfa honno, ac mae'r Archwilwyr Allanol yn gweithio'n agos gyda swyddogion o'r Gwasanaeth Cyllid i gael y wybodaeth er mwyn gallu gwneud y newidiadau priodol i'r Datganiad Drafft er mwyn cynhyrchu fersiwn derfynol, a phan fydd hynny wedi'i wneud bydd y newidiadau'n cael eu harchwilio. Mae'r broses yn parhau.

Yn y drafodaeth fer a gafwyd wedi hynny, gofynnodd aelod beth oedd yn penderfynu'r lefel feintiol lle mae'r Archwilwyr Allanol yn barnu bod camddatganiadau yn rhai o bwys, a pha mor arwyddocaol yw'r ffigwr hwn. Eglurodd Ms Lynn Hine nad yw'r Archwilwyr Allanol yn ceisio rhoi barn ar bob manylyn yn y cyfrifon a'i fod yn gosod trothwy ar gyfer penderfynu a oes angen gwneud newidiadau, ac yn hyn o beth, mae'r Archwilwyr Allanol yn cael eu cyfarwyddo gan ganllawiau a osodwyd gan y Safonau Archwilio a Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd y trothwy'n cael ei osod yn gyffredinol ar 1% o incwm ac mae hyn yn cynrychioli lefel gyffredinol sy'n cael ei defnyddio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Cadarnhaodd Ms Lynn Hine nad oedd yr ystyriaeth hon wedi ffurfio rhan o'r oediad gyda rhyddhau'r Datganiad Cyfrifon terfynol. Gofynnodd yr aelod wedyn beth oedd wedi achosi'r oedi gyda rhyddhau'r cyfrifon terfynol. Atebodd Ms Lynn Hine trwy ddweud bod yna sawl maes ac fe wneir cyfeiriad at rhai ohonynt yn yr adroddiad ysgrifenedig, lle mae gwaith yn parhau, ac yn cynnwys, er enghraifft, waith mewn perthynas â Grantiau'r Llywodraeth a Ddirprwywyd, yn benodol yng nghyswllt y newid y mae'r Awdurdod eisiau ei wneud i'r cyfrifon er mwyn cael ffigwr mwy cywir o dan y pennawd hwn. Mae gwaith ar hyn yn parhau ac mae'n rhaid iddo gael ei brosesu'n gywir trwy'r set o gyfrifon ac nid yw hynny wedi digwydd eto. Mae hwn yn un maes lle nad oes gan yr Archwilwyr Allanol set o gyfrifon lle mae'r newidiadau wedi'u prosesu i lefel lle y mae yn fodlon. Mae hwn hefyd yn cynrychioli'r maes mwyaf arwyddocaol yn nhermau gwerth. Pan fydd fersiwn derfynol o'r Datganiadau Ariannol wedi'u paratoi, a bod Archwilio Allanol yn barod i roi barn, bydd yn dilyn y drefn arferol ac yn tracio'r broses o wneud newidiadau o'r cyfnod drafft i'r fersiwn derfynol. Roedd yr aelodau eisiau cael sicrwydd bod yr oedi yn bennaf yn ymwneud ag ail ddosbarthu rhai eitemau o fewn y cyfrifon yn hytrach nag ag incwm a gwariant, ac nad oedd y methiant hwn i gyflwyno set derfynol o gyfrifon ar amser yn creu risg i'r Cyngor. Dywedodd Ms Lynn Hine bod rhai eitemau yn ymwneud ag incwm a gwariant ond nad ydynt mor arwyddocaol. O safbwynt risg, yr hyn y bydd yn rhaid i'r Awdurdod ei wneud yw egluro pam na fu'n bosibl llunio'r Datganiad o Gyfrifon erbyn 30 Medi yn unol â'r gofynion rheoliadol.

Roedd yr aelodau'n gytûn nad oedd dim i'w ennill o drafod y mater ymhellach yn y cyfarfod hwn hyd nes y byddai'r cyfan o'r ffeithiau ar gael ac fe gytunwyd i gymeradwyo'r cwrs â argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid uchod. Fodd bynnag, dywedodd y Cynghorydd G.W. Roberts y byddai'n hoffi gwybod faint o amser gafodd ei dreulio ar ddelio gyda chwynion disail oherwydd ei fod ef yn credu bod hyn yn risg o fewn yr Awdurdod.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid y byddai'r Cyngor yn cael ei feirniadu am hyn a bod methiant i gyhoeddi Datganiad Cyfrifon terfynol yn unol â'r gofynion yn sicr o gael ei weld yn allanol fel methiant i lywodraethu ar ran yr Awdurdod. O safbwynt rhai o'r prif faterion oedd wedi'u crybwyll yn adroddiad yr Archwilydd Allanol, yng nghyswllt Grantiau'r Llywodraeth a Ddirprwywyd, mae hyn yn fater sylweddol yn ymwneud â ffigwr sylweddol ac mae'r trafodaethau ynglyn â hyn yn hynod o dechnegol. Mae'r mater yn ymwneud â lle mae'r balans yn gorwedd rhwng gwahanol eitemau yn y Fantolen ac y mae mewn gwirionedd yn fater cyfrifo technegol ac esoterig iawn. Nid oes i hyn, fodd bynnag, effaith yn nhermau incwm a gwariant nac arian wrth gefn y gellir ei ddosbarthu - mater o ddosbarthiad ydyw. O safbwynt Tâl Cyfartal, roedd y cwestiwn a ddylid cynnwys darpariaeth benodol ar gyfer Tâl Cyfartal yn Natganiadau Ariannol yr Awdurdod wedi codi mewn blynyddoedd blaenorol. Y safbwynt gymerwyd gan yr Awdurdod ar y mater hwn fu gosod o'r neilltu arian wrth gefn ar gyfer materion Tâl Cyfartal, Arfarnu Swyddi a Statws Sengl ar wahân i wneud darpariaeth, sy'n golygu bod yna gyfrifoldeb gwirioneddol ar ddyddiad y Fantolen. Roedd yr Awdurdod wedi ymatal rhag gwneud darpariaeth oherwydd nad yw'n credu na chyrhaeddwyd y pwynt lle mae cyfrifoldeb gwirioneddol yn bodoli. Mewn archwiliadau yn y gorffennol felly, ni wnaed unrhyw ddarpariaeth er i ddarpariaeth gael ei wneud y flwyddyn hon, nid ar gyfer Tâl Cyfartal, ond ar gyfer cost y cynnig wnaed i'r Undebau

Llafur yn ystod y flwyddyn ariannol.  Mae'r drafodaeth ar hawliau tâl cyfartal yn parhau, ac y mae'n fater y mae angen ei adolygu bob blwyddyn.  Rhaid i'r Awdurdod gymryd y cyngor gorau yng nghyswllt â ddylai wneud darpariaeth ai peidio, a rhaid iddo ystyried a yw'r sefyllfa wedi symud yn ei blaen yn ddigon o fewn blwyddyn i gyfiawnhau newid y driniaeth a fabwysiadwyd y flwyddyn flaenorol.  Fodd bynnag, os deuir i'r casgliad bod angen gwneud darpariaeth yna mae i hynny oblygiadau yn nhermau beth sydd gan yr Awdurdod wrth gefn.  Mae'r drafodaeth sydd angen ei chynnal felly yn un sylweddol ac yn fater lle y mae'n rhaid i'r Awdurdod gael cyngor.  Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod yn gofyn a oes bwriad i adrodd yn ôl ar y mater hwn o ystyried pa mor sylweddol ydyw a'r risgiau y gall eu codi, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid y bydd adroddiad pellach yn cael ei roi i'r Pwyllgor hwn ar y Datganiad Cyfrifon terfynol.  Fodd bynnag, rhaid rhoi sylw i ddiddordebau'r Awdurdod trwy beidio â datgelu ffigwr yn gyhoeddus a bydd yn rhaid cadw hyn mewn cof.

Roedd mater y pensiynau wedi'i drafod yn faith yn y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor lle cafodd y datganiadau cyfrifo drafft eu cyflwyno, gyda'r pwynt yn cael ei wneud ynglyn â'r ffordd y mae'r diffyg ar y gronfa bensiwn yn cael ei asesu a sut y gall hyn amrywio yn ôl y gyfradd ddisgownt a ddefnyddir, a dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid wrth yr aelodau bod Pensiynau Gwynedd yn dweud y byddai'r canlyniadau wedi bod yn wahanol pe bai'r un raddfa ddisgownt wedi cael ei defnyddio yn y flwyddyn flaenorol.  Nododd hefyd bod bwriad i newid y rheolau o ganlyniad i ddatganiad yng nghyllideb y Llywodraeth fis Mehefin y bydd pensiynau o hyn ymlaen wedi'u cysylltu i'r Indecs Prisiau Defnyddiwr yn hytrach nag i'r Indecs Prisiau Adwerthu. Pe bai hynny wedi'i ddefnyddio i weithio allan y diffyg Pensiwn, byddai'r cyfrifoldeb wedi bod yn llai.  Fodd bynnag, oherwydd i'r newid gael ei gyflwyno ar ôl dyddiad y Fantolen, bydd y ffigwr oedd wedi ymddangos yn wreiddiol yn y cyfrifon drafft yn sefyll, ond fe fydd yna fwy o ran naratif i uwch oleuo'r ffaith bod y ffigyrau pensiwn yn dibynnu ar dybiaethau all newid a'u bod yn cynrychioli mwy o amcangyfrif eang na symiau cywir.

**Penderfynwyd -**

- **Nodi'r eglurhad roddwyd paham nad oedd Datganiad Cyfrifon ar gael erbyn y dyddiad cau angenrheidiol a bod y gwaith yn parhau i'w gwblhau.**
- **Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid mewn ymgynghoriad â'r Is-Gadeirydd, ac Archwilio Allanol, rhyddhau datganiad cyhoeddus yn dweud bod yr Awdurdod wedi methu cyhoeddi Datganiad o Gyfrifon erbyn 30 Medi a bod Datganiad drafft ar gael i'r cyhoedd.**

**3.2** Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid yn ymateb i'r materion a godwyd yn adroddiad yr Archwilydd Allanol o dan 3.1 uchod.  Eglurodd Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) bod yr adroddiad uchod yn cael ei thynnu'n ôl a hynny oherwydd y trafodaethau oedd yn parhau gyda'r Archwilwyr Allanol i ddatrys materion yn ymwneud â chwblhau'r cyfrifon, a bydd yn cael ei hail gyflwyno pan fydd y datganiad cyfrifon wedi'i gwblhau.  Nododd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) ei bod yn barod i ateb unrhyw gwestiynau gan yr aelodau.

Un mater arbennig godwyd oedd y pwysau a roddir ar staff yr Adran Gyllid ac oherwydd y lleihad yn y cyfnod a ganiateir ar gyfer paratoi'r cyfrifon o chwe mis i dri a gofynnwyd onid oedd gan yr Awdurdod le i wneud sylwadau ynglyn â'r pwysau annerbyniol y mae'r cyfnod amser angenrheidiol yn ei roi ar staff.  Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid mewn ymateb bod y pwysau o orfod cwblhau'r cyfrifon o fewn cyfnod amser o dri mis yn gwyn sy'n cael ei chodi bob blwyddyn; fodd bynnag, roedd yr Awdurdod mewn blynyddoedd blaenorol wedi gallu cyfarfod â'r her hon yn llwyddiannus ac wedi medru cydymffurfio gyda'r gofynion.  Ni fyddai'n deg felly, i ddweud mai'r cyfyngiadau amser oedd yn gyfrifol am y methiant i gydymffurfio y flwyddyn hon.  Soniodd yr un aelod at y cyfeiriad wneir yn adroddiad yr Archwilwyr Allanol bod rhai gwendidau yr oeddynt wedi'u nodi mewn rheoliadau mewnol, a gofynnodd a oedd hyn yn cynyddu'r risg i'r Cyngor.  Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) bod y gwaith Archwilio Mewnol yn archwilio ansawdd a chadernid Systemau Ariannol yr Awdurdod yn flynyddol, a bu barn yr Archwilwyr Mewnol yn gyson gadarnhaol yn hyn o beth.  Fodd bynnag, yr hyn nad yw ar gael i'r Gwasanaeth Cyllid yw'r hyblygrwydd i allu adrodd mewn mwy nag un ffordd o'r bas-data i wahanol bwrpasau, felly nid yw'n fater nad yw'r Awdurdod yn ymwybodol o'r hyn sydd ganddo nac o'r hyn yw ei gyfrifoldebau, ond yn hytrach un lle y'i gwelir yn wynebu anawsterau gydag addasu'r wybodaeth honno i fformat cyfrifon statudol a'r cymhlethdodau sydd bellach ynglyn â hynny.

## 4 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid yn ymgorffori'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i ystyriaeth y Pwyllgor. Roedd y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod fis Ebrill, 2010 wedi penderfynu y dylai'r Awdurdod symud yn wirfoddol oddi wrth y Datganiad o Reolaeth Fewnol i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn 2009/10. Roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn disgrifio'r weithred fel yr oedd yn 2009/10 oedd yn cynnwys y cyfnod yr adroddwyd arno gan yr Adroddiad Archwilio Llywodraethu Corfforaethol feirniadol fis Gorffennaf, 2009 yn ogystal â dechrau'r adferiad o'r pwynt hwnnw. Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi cytuno fis Ebrill y dylid defnyddio'r Archwiliad Llywodraethu Corfforaethol fel pwynt cychwyn ar gyfer disgrifio gwendidau llywodraethu yn 2009/10 fel rhywbeth i fesur llwyddiant dilynol yn ei erbyn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid wrth yr aelodau bod yr adroddiad yn crybwyll sut y mae Llywodraethu'n cael ei ddiffinio ac y mae'n rhestru'r chwe egwyddor y dylai'r Datganiad gyfeirio atynt wrth werthuso'r ymarfer o Lywodraethu yn yr Awdurdod. Y ffynonellau oedd yn cael eu defnyddio i lunio Datganiad Llywodraethu (oedd ynghlwm i'r adroddiad fel Atodiad A) yn cynnwys yr Adroddiad Archwilio Llywodraethu Corfforaethol o fis Gorffennaf, 2009; y Cynllun Adfer a fabwysiadwyd gan y Cyngor gyda'r fersiwn bresennol ynghlwm wrth yr adroddiad fel Atodiad B; adroddiadau cynnydd gan y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro a'r Bwrdd Adfer yn ogystal ag Asesiad Corfforaethol drafft Swyddfa Archwilio Cymru. Tystiolaeth arall oedd yn cael ei ddefnyddio oedd Cyfansoddiad y Cyngor,sesiynau hyfforddi a chyfarfodydd, ac adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol.

Yr agwedd a ddilynwyd ar gyfer pob un o'r chwe egwyddor fu -

- gwerthuso pa drefniadau oedd yn eu lle i gefnogi pob un;
- cyfeirio at feirniadaeth o'r Archwiliad Corfforaethol sydd yn berthnasol i'r egwyddor;
- adrodd ar gamau gymerwyd erbyn 31 Mawrth, 2010 (ac felly yn berthnasol i ddisgrifio'r safle yn ystod yflwyddyn);
- adrodd ar unrhyw weithgareddau oedd ar ôl ac oedd yn ffurfio rhan o'r Cynllun Adfer.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid y byddai'r Datganiad Llywodraethu, yn ddelfrydol, hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Grwp Llywio Adferol oedd newydd ei sefydlu er mwyn sicrhau perchenogaeth ehangach i'r broses o wella Llywodraethu, ond nid oedd y Grwp hwnnw wedi cyfarfod eto. Bydd y Datganiad hefyd yn ffurfio rhan o'r Datganiad Cyfrifon a bydd yn cael ei gyhoeddi gyda'r Datganiad. O gofio, fel sydd wedi'i adrodd, nad yw'r Cyfrifon Terfynol eto yn barod i'w cyhoeddi ac y bydd yn rhaid eu hailgyflwyno, bydd yn bosibl i'r Grwp Llywio adolygu cynnwys y Datganiad Llywodraethu cyn iddo gael ei gyhoeddi'n derfynol. Roedd cais yn cael ei wneud felly i'r Pwyllgor Archwilio yn y cyfarfod hwn heddiw iddo fabwysiadu'r Datganiad Llywodraethu gyflwynwyd fel Datganiad drafft i eistedd ochr yn ochr â'r Datganiad o Gyfrifon drafft, i gynnig unrhyw sylwadau y byddai'n dymuno gweld y Swyddogion yn eu hystyried, ac i nodi y gallai fod angen uwchafu rhai adrannau cyn cwblhau'r Datganiad.

Nododd y Cadeirydd mai un o'r tasgau a nodir yn y Cynllun Adfer yn Atodiad B o dan y pennawd Datblygu Aelod yw gwella rôl y Pwyllgor Archwilio, ac awgrymodd y dylai'r Arweinydd a'r Rheolwr-gyfarwyddwr fod yn bresennol mewn rhai cyfarfodydd o'r Pwyllgor Archwilio fel ffigyrau arweiniol aelodau etholedig yr Awdurdod a'r Swyddogion ac y byddai hynny'n gwella proffil y Pwyllgor a'i statws. Roedd y Cynghorydd G.W. Roberts, OBE yn cytuno gyda'r awgrym, ac roedd am gynnig yn ffurfiol bod y Rheolwr-gyfarwyddwr ac Arweinydd y Cyngor yn cael eu gwahodd i ddod i gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ddwywaith y flwyddyn, gan ei fod yn credu y byddai, nid yn unig yn rhoi hwb i broffil y Pwyllgor hwn ond hefyd yn rhoi cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau. Roedd y Pwyllgor yn cytuno gyda chynnig y Cynghorydd Roberts.

Cyfeiriodd y Cynghorydd J.P. Williams at sylw yn y Cynllun Adfer mewn cyfeiriad â'r nod y dylai'r Awdurdod roi mwy o sylw i weithredu fel busnes, a thra bo "*Cyngor Sir Ynys Môn yn un o gyflogwyr mwyaf yr ynys ac yn nhermau'r FTSE byddai ymysg y 500 cwmni mwyaf yn y DU, mae wedi methu dros y blynyddoedd i wella technegau rheolaethol a mudiadol priodol*," a dywedodd ei fod wedi nodi bod yna dechnegau rheoli wedi bod yn weithredol am sawl blwyddyn yn y sector preifat ond gyda'r sector cyhoeddus i bob pwrpas yn methu deall hynny, a chrybwyllodd gysyniadau fel "cylchoedd o ansawdd", "meincnodi", "kaizen" (gwelliant parhaus). Roedd yr olaf yn arbennig, yn ôl y Cynghorydd

Williams, yn ddull a brofwyd i yrru costau i lawr ac o wella brwdfrydedd dros newid ymysg y gweithlu. Roedd o'r farn bod ymarferion o'r fath yn hollol allweddol i ddarparu'r gwelliant parhaus y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei wneud ac roedd yn teimlo ei bod yn annhebyg y bydd yr Awdurdod yn gallu darparu'r arbedion effeithlonrwydd oni bai bod systemau o'r fath yn cael eu rhoi yn ei lle ym mhob Adran, er mwyn sicrhau ymarferoldeb parhaus ei wasanaethau yn yr amgylchedd heriol y bydd yn ei wynebu yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, pe bai systemau o'r fath yn eu lle, yna nid oedd yn credu i unrhyw sylw gael ei wneud ohonynt neu at y manteision oedd yn deillio ohonynt. Tynnodd y Cynghorydd C.L. Everett sylw'r aelodau at gysyniad yr Anglesey Manager a fwriadwyd i roi perchenogaeth ehangach o safbwynt gwneud penderfyniadau i reolwyr ail a thrydedd reng, ac i roi erfyn i reolwyr allu gwella perfformiad. Roedd y Cynghorydd G.W. Roberts yn credu nad oedd y Datganiad Llywodraethu a'r hyn y mae'n ei ddangos yn ddim llai na galwad i'r Awdurdod ddeffro o safbwynt yr angen iddo ail feddwl am ei agwedd rheolaethol, ac awgrymodd bod yn rhaid mabwysiadu agwedd ehangach a mwy corfforaethol yn hytrach na'r agwedd adrannol lle mae rheolwyr yn gweithio o fewn eu "cylchoedd" eu hunain; ac y gallai'r newid fod yn fwy cyflym, ac y gallai fod felly pe bai archwilio yn fwy cadarn yn ei argymhellion, a bod yn rhaid i'r aelodau hefyd fod yn fwy cefnogol gan adael y dasg o reoli i reolwyr. Nododd y Cynghorydd J.P. Williams ei fod yn credu bod cynnydd yn cael ei wneud mewn nifer o feysydd a bod y broses o hunan asesu i'w gweld fel pe bai'n dwyn ffrwyth. Cynigiodd y Cynghorydd G.W. Roberts y dylid derbyny Datganiad Llywodraethu mewn egwyddor a'i fod yn cael ei basio ymlaen i'r Grwp Llywio Adferol i'w ystyried yng nghyfarfod cyntaf y grwp hwnnw.

**Penderfynwyd -**

- **Derbyn y Datganiad Llywodraethu a gyflwynwyd fel Datganiad drafft a nodi y gellid bod angen ymestyn rhai adrannau cyn ei gwblhau.**
- **I gyfeirio'r Datganiad Llywodraethu fel y'i cyflwynwyd i'r Grwp Llywio Adferol i'w ystyried.**
- **I wahodd y Rheolwr-gyfarwyddwr ac Arweinydd y Cyngor i fynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Archwilio ddwywaith y flwyddyn.**

## 5 ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad cynnydd gan y Rheolwr Archwilio ar waith yr Adain Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill i 31 Awst, 2010, er gwybodaeth i'r Pwyllgor.

Cyfeiriodd y Rheolwr Archwilio at rai prif bwyntiau fel a ganlyn -

- Roedd Tabl 2.2 yr adroddiad yn adlewyrchu'r cynnydd wnaed yn erbyn y Cynllun Archwilio Mewnol hyd at 31 Awst, 2010.
- Roedd Tabl 2.3 yn darparu cymhariaeth o'r dyddiau cynlluniedig ar gyfer pob categori gwaith gyda'r dyddiau gwirioneddol a gofnodwyd yn erbyn pob categori am y cyfnod pum mis yr oedd yr adroddiad yn son amdanynt. Roedd y data yn dangos bod 274 o ddyddiau wedi'u treulio ar waith archwilio rhaglenedig o'i gymharu â 337 diwrnod a gynlluniwyd, yn rhoi gwahaniaeth o -63 diwrnod neu -19%. Roedd y cyfnod hwn yn cynnwys y Pasg, Mai, a Gwyliau Banc mis Awst ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y dyddiau rhaglenedig a gollwyd oedd yn cael eu matsio gan ddyddiau ychwanegol yn cael eu dangos yn erbyn Gwyliau. Mae cyfnod yr Haf hefyd yn gyfnod pan fo gwyliau yn fwy amlwg nag ar amseroedd eraill o'r flwyddyn ac mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y ffigyrau. Mae nifer o ddyddiau absenoldeb salwch hefyd i'w gweld yn y ffigyrau yn Nhabl 2.3. Roedd y cyfan o'r ffactorau hyn wedi cyfrannu at i lai o ddyddiau gael eu treulio ar waith Archwilio cynlluniedig yn y cyfnod.
- Roedd tabl atodol yn 2.3 yn cymharu'r gwahaniaeth % o archwilio cynlluniedig a gwaith nad oedd yn waith archwilio am y 12 mis diwethaf erbyn dyddiad y Pwyllgor Archwilio lle yr adroddwyd ar y ffigyrau. Roedd cymharu ffigyrau Medi, 2009 a Medi, 2010 yn dangos bod y gwaith Archwilio i lawr ar y ddau, a gwaith nad yw'n waith archwilio wedi mynd i fyny. Mae hyn yn adlewyrchu'r materion a grybwyllwyd uchod.
- Cymerwyd camau i lenwi'r swydd wag yn yr adain a grewyd pan adawodd Arweinydd y Tîm Archwilio i swydd yn Adran Cyfrifo'r Adran Gyllid. Bydd hyn yn cael effaith ar allu'r tîm i wneud adolygiadau lefel uchel. Mae adnoddau ychwanegol gan RSM Tenon yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i leihau effaith y lle gwag gan ddefnyddio cyflog yr Arweinydd Tîm Archwilio i ariannu hyn.

- Ers y Pwyllgor Archwilio blaenorol, roedd wyth adroddiad terfynol o Gynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2010/11wedi'u rhyddhau. Nid oedd yr un o'r adroddiadau hyn wedi derbyn Barn Sicrwydd Coch am adolygiadau 2010/11, na barn Gyfyngedig am adolygiadau 2009/10.
- Roedd adran pedwar yr adroddiad yn manylu ar waith ymchwilio arbenigol y gofynnir i Archwilio Mewnol ei wneud o ganlyniad i faterion sy'n dod i'r amlwg yn ystod gwaith archwilio rhaglenedig, neu waith y bydd yn ei wneud ar gais Archwilio Allanol neu adrannau eraill. Roedd yr adran yn cyfeirio hefyd at waith sy'n parhau yn ogystal ag atgyfeiriadau newydd, ac yn rhoi amlinelliad o'r cynnydd hyd yn hyn gyda phob mater.
- Roedd cynnydd y Cyngor yn gweithredu argymhellion archwilio yn cael ei ddangos yn y Tabl Cynnydd yn Atodiad A a hynny'n dod o'r hunan asesiadau o berfformiad gan y gwasanaethau. Ar 17 Medi, 2010, allan o'r 689 o argymhellion o bob categori lle roedd y dyddiad cyflawni wedi pasio, roedd 443 (64%) wedi'u gweithredu; 217 (31%) heb eu gweithredu a 29 (4%) wedi'u hasesu yn rhai wedi'u disodli. Nid oedd yr un argymhelliad "Uchel" wedi'i gofnodi ar y system yn y cyfnod. o'r 122 o argymhellion "Sylweddol/Canolig" lle roedd y dyddiad gweithredu wedi pasio, roedd 74 (61%) wedi'u gweithredu; 41 (34%) heb eu gweithredu ac roedd 7 argymhelliad (5%) wedi'u hasesu fel rhai a ddisodlwyd. Yn seiliedig ar y data hunan asesu yn y Tabl Cynnydd yn Atodiad A, bernir bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd rhesymol yn y cyfnod gyda gweithredu argymhellion yr Archwilwyr Mewnol.
- Mae canlyniadau cyfraniad Archwilio Mewnol ym meincnodi Grwp y Prif Archwilwyr Cymru am 2009/10 yn awr wedi'u rhyddhau ac i'w gweld yn y tabl ym mharagraff 7.2 yr adroddiad. Roedd y ffigyrau'n dangos bod Archwilwyr Mewnol Ynys Môn wedi mynd dros y targed yn nhermau'r ganran o'r Cynllun Archwilio a gwblhawyd i'r cyfnod drafft a'r ganran o ddyddiau y codir amdanynt hyd yma, a bod ei lefelau boddhad y cleient yn unol â chyfartaledd Cymru Gyfan. Roedd Tabl 7.4 yn ymhelaethu ar berfformiad cymharol yn erbyn dangosyddion eraill yn cynnwys y nifer o staff Archwilio (5.6 ym Môn o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 11) ac roedd Tabl 7.5 yn adlewyrchu'r cymhariaethau costau gwasanaeth oedd yn dangos y gost gyfartaleddog yn ôl pob dydd y codir amdanynt ym Môn rhyw £210 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o £230.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Archwilio am yr adroddiad a dywedodd mai'r nod yn y pen draw yw sicrhau gwerth am arian, a bod mewn sefyllfa i roi sicrwydd bod adrannau'n gwneud yr hyn y maent yn cael eu talu i'w wneud a'u bod yn defnyddio'r adnoddau'n ddoeth ac yn effeithiol. Dywedodd yr Aelodau eu bod yn fodlon bod Archwilio Mewnol yn darparu gwerth am arian.

Un cwestiwn arbennig a godwyd am yr adain tracio argymhellion yn yr adroddiad cynnydd oedd - a yw'r data yn cynyddu fel y gellir darparu patrwm o'r adrannau sydd ddim yn cydymffurfio neu adrannau sy'n araf i weithredu ar argymhellion archwilio mewnol, a chyfeiriwyd at yr adran Hamdden a Chymuned (16 allan o 19 o argymhellion ar ôl) a Chynllunio (pob un o 14 o argymhellion ar ôl). Gofynnwyd a oedd yna unrhyw reswm arbennig am y lefel hwn o beidio gweithredu ac a ellir gwneud rhywbeth am hynny. Dywedodd y Rheolwr Archwilio, gan wneud sylw cyffredinol ar yr adrannau sydd heb weithredu, bod yr Adran Addysg yn wynebu gwaith gweinyddol sylweddol yng nghyswllt yr argymhellion a wneir i ysgolion. Yn yr un modd, dim ond yn ddiweddar iawn y gallodd yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu swyddog i ddilyn argymhellion ac i sicrhau bod gweithredu arnynt, ac o gofio am hyn holl, roedd yr Adran wedi perfformio'n dda yn y cyfnod. O safbwynt yr Adrannau Cynllunio a Hamdden a Chymunedol, awgrymodd y Rheolwr Archwilio y byddai ymweliad gan yr Ymchwilwyr Mewnol i'r Adrannau hyn efallai o gymorth er mwyn cynnig cefnogaeth a chyfarwyddyd pellach. Roedd y Cadeirydd a'r Aelodau yn cytuno y dylid gofyn i'r Archwilwyr Mewnol edrych i mewn i rai o'r materion lle na chafwyd gweithredu yn yr Adran Gynllunio a'r Adran Hamdden a Chymuned ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio.

**Penderfynwyd -**

- **Derbyn adroddiad cynnydd y Rheolwr Archwilio ar y gwaith Archwilio Mewnol o 1 Ebrill, i 31 Awst, 2010 a nodi ei gynnwys.**
- **Gofyn i'r Rheolwr Archwilio edrych i mewn i'r diffyg gweithredu ar argymhellion archwilio mewnol gan yr Adran Gynllunio a'r Adran Hamdden a Chymuned ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio.**

**Cynghorydd R. Llewelyn Jones**
**Is-Gadeirydd**